# Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy

Papur Gwyn ar Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn

ISBN: 978-1-83625-417-1

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Ymgysylltu ........ 4

Adran 1: Papur Gwyn Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach - Crynodeb o'r Cynigion ........ 4

Adran 2: Ein Hymateb i'r Ymgynghoriad ........ 6

Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol ........ 6

Rhan B – Llywodraethiant Amgylcheddol ........ 8

Rhan C – Bioamrywiaeth ........ 19

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu a chryfhau cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Yr amgylchedd yw'r sylfaen yr adeiladwyd ein cymdeithas a'n heconomi arni. Mae'n darparu aer glân i ni ei anadlu, dŵr glân i'w yfed, a thir ffrwythlon i dyfu bwyd. Mae hefyd yn cefnogi cyfoeth o fioamrywiaeth, sy'n hanfodol ar gyfer iechyd ein hecosystemau.

2. Bydd cyfraith amgylcheddol yn hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, a niwed i'r amgylchedd fel llygredd.

3. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y bydd Bil yn cael ei gyflwyno i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru ac i gyflwyno dyletswydd statudol a thargedau i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yn ei ddatganiad deddfwriaethol a wnaed yn y Senedd ar 27 Mehefin 2023.

4. Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd i wreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, cryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru trwy sefydlu corff llywodraethiant i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus. Mae'r cynigion yn adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at "Gymru wyrddach i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur".

5. Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion i gwmpasu'r tri maes allweddol ac yn gwahodd barn gan bartïon â buddiant ar y canlynol:

   i. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
   ii. Llywodraethiant Amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru; a
   iii. Fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

6. Ategwyd y Papur Gwyn gan Asesiad Effaith Integredig drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a oedd yn darparu ein hasesiad cynnar o gostau a manteision ein cynigion.

7. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ebrill, a daeth cyfanswm o 1171 o ymatebion i law. Roedd y rhain yn cynnwys 161 o ymatebion ar-lein, 5 ymateb i'r fersiwn hawdd ei ddarllen a 1005 o ymatebion i'r ymgyrch. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ymateb.

8. Mae dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi yma: Ymgyngoriadau | LLYW.CYMRU

9. Mae rhan gyntaf y cyhoeddiad hwn yn amlinellu cwmpas arfaethedig y cynigion polisi a'n gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r ail ran yn amlinellu ein hymateb i'r prif faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad.

## Ymgysylltu

10. Mae elfennau o'r Papur Gwyn wedi bod yn destun ymgynghoriad o'r blaen. Defnyddiwyd yr ymgysylltiad hwnnw i lywio'r cynigion polisi yn y Papur Gwyn.

11. **Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE 2019** Mae'r ddogfen ymgynghori a'r crynodeb o'r ymatebion ar gael yma.

12. Comisiynwyd **y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol** yn 2019, ac roedd yn cynnwys sefydliadau ac academyddion amgylcheddol allweddol. Cyflwynodd adroddiad terfynol gydag argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru. Mae adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo ar gael yma.

13. Ategwyd yr ymgyngoriadau ffurfiol hyn gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cyhoeddus ac awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod ein cynigion yn addas i'r diben.

14. Yn ystod Ymgynghoriad 2024, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai a sgyrsiau un i un gyda rhanddeiliaid. Cynhaliwyd deuddeg o sesiynau un i un gyda rhanddeiliaid allweddol i drafod cynigion polisi. Cynhaliwyd dau weithdy polisi i drafod strwythur y corff a'r pwerau gorfodi arfaethedig, a chynhaliwyd dau weithdy arall gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i drafod yr Egwyddorion a'r Targedau.

# Adran 1: Papur Gwyn Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach - Crynodeb o'r Cynigion

15. Roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer Bil i gwmpasu tri maes allweddol ac yn gwahodd barn gan bartïon â buddiant mewn tri phrif faes:

*Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol*

16. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig cyflwyno egwyddorion amgylcheddol i gyfraith Cymru. Byddai'r egwyddorion hyn yn debyg i egwyddorion amgylcheddol a sefydlwyd ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, gan eu datblygu hefyd:
    - Integreiddio
    - Egwyddor Ragofalus -Atal-Cywiro yn y Ffynhonnell -Yr Egwyddor mai'r Llygrwr sy'n Talu
17. Cynigiwyd y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu hategu gan amcan cyffredin i geisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel a gwella

ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru, yn arbennig i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

18. Mewn perthynas â'r egwyddorion, roedd y Papur Gwyn yn cynnwys y canlynol hefyd:
  - Dyletswydd arfaethedig ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu dehongli yng Nghymru.
  - Dyletswydd arfaethedig ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth.
  - Cais am safbwyntiau ynglŷn ag a ddylid ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gymhwyso'r egwyddorion a'r canllawiau cysylltiedig (gyda chynnig i beidio â gwneud hynny).

*Rhan B – Llywodraethiant Amgylcheddol*

19. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd er mwyn goruchwylio'r broses o gyflwyno cyfraith amgylcheddol a chydymffurfio â hi.

20. Cynigiwyd y nodweddion allweddol canlynol:
  - Wedi'i sefydlu yn y gyfraith gyda phwerau statudol i sicrhau safonau amgylcheddol uchel.
  - Cynnwys pwerau i fonitro, ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru.
  - Bod â phwerau i gynghori Llywodraeth Cymru (ac awdurdodau cyhoeddus eraill) ar bolisi a chyfraith amgylcheddol.
  - Y gallu i gydweithio â sefydliadau eraill er mwyn osgoi dyblygu ymdrech.

21. Gofynnwyd am adborth ar ystod o fesurau deddfwriaethol a oedd wedi'u cynnig ar gyfer y corff llywodraethu, gan gynnwys:
  - Pwerau monitro ac adrodd er mwyn asesu proses awdurdodau cyhoeddus Cymru o ran rhoi cyfraith amgylcheddol ar waith a chydymffurfio â hi.
  - Pwerau i ddarparu cyngor arbenigol ar gyfraith a pholisi amgylcheddol.
  - Pwerau i ymdrin â chwynion am gyfraith amgylcheddol (ac eithrio penderfyniadau penodol gan gyrff cyhoeddus).
  - Pwerau i ymchwilio i achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan gyrff cyhoeddus yn seiliedig ar fonitro, cwynion neu weithgarwch y corff ei hun.
  - Pwerau i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth sy'n gofyn am wybodaeth gan gyrff cyhoeddus a chymryd camau gorfodi am ddiffyg cydymffurfiaeth.
  - Pwerau i ddefnyddio adnoddau gorfodi fel hysbysiadau cydymffurfio (ac apeliadau cysylltiedig), adroddiadau gwella, ac (mewn achosion eithriadol) adolygiad barnwrol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth.

22. Roedd disgwyl i'r corff llywodraethu fod yn dryloyw a chydweithio'n effeithiol â sefydliadau eraill sydd â nodau tebyg. I gefnogi hyn, cynigiwyd y byddai gan y corff llywodraethu ddyletswydd i baratoi ac ymgynghori ar strategaeth sy'n nodi'n fanwl sut roedd yn bwriadu arfer ei swyddogaethau.

23. Hefyd, gofynnwyd am safbwyntiau ar ffurf a model gweithredu'r corff llywodraethu, a mynegwyd cefnogaeth ar gyfer model comisiwn gyda bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, 7-8 aelod arbenigol arall, yn ogystal â staff cymorth cefn swyddfa.

*Rhan C - Bioamrywiaeth*

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig sefydlu fframwaith adfer natur strategol er mwyn helpu i gryfhau ein hymateb i'r argyfwng natur.

Roedd y fframwaith adfer natur yn cynnig y canlynol:

a) Targedau bioamrywiaeth statudol sy'n cynnwys targed pennawd natur-bositif yn y Bil a chyfres o dargedau bioamrywiaeth ategol i'w pennu gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth.
b) Gofynion monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar gyfer y targed pennawd a'r targedau ategol a fydd yn ategu ac yn gwella mecanweithiau.
c) Strategaeth Adfer Natur a fydd yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru natur-bositif lle mae bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i hadfer, gan osod y llwybr strategol ar gyfer cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol. Rhoi sylw i'n hymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF), a'r newid tymor hwy sydd ei angen i ymateb i'r argyfwng natur.
d) Cynllun Gweithredu Adfer Natur a fydd yn manylu ar y camau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol ac wrth wneud hynny, yn gwireddu ein gweledigaeth hirdymor o Gymru natur-bositif.
e) Cynlluniau Adfer Natur Lleol i'w llunio gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, gyda'r bwriad o amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol sy'n adlewyrchu Strategaeth Adfer Natur Cymru a'u cyfraniad at helpu i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol.

# Adran 2: Ein Hymateb i'r Ymgynghoriad

Cyflwyniad:

24. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu ein hymateb i'r cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion ac yn derbyn bod angen mwy o fanylion mewn rhai meysydd, a fydd yn cael sylw yn ystod datblygiad y Bil.

## Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol

*Darpariaeth i sefydlu Egwyddorion Amgylcheddol mewn Deddfwriaeth yng Nghymru wedi'u hategu gan Ganllawiau Statudol*

25. Rydym yn croesawu'r cytundeb cyffredinol ei bod yn bwysig bod yr egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol yn cael eu hadlewyrchu mewn

deddfwriaeth yng Nghymru. Nodwyd bod nifer o sefydliadau o blaid eglurder pellach ynglŷn â'r croestoriad rhwng polisïau a deddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, a'u bod yn credu ei bod yn bwysig adlewyrchu'n glir y sbardunau polisi ehangach sy'n cefnogi'r egwyddorion amgylcheddol, ac yn cael eu cefnogi ganddynt. Mae hyn yn cynnwys yr argyfyngau hinsawdd a natur, cryfder ecosystemau a datblygu cynaliadwy. Felly, byddwn yn archwilio sut i gryfhau ein cysondeb â meysydd polisi ehangach drwy, er enghraifft, asesu sut y gellid cynnwys yr argyfyngau hinsawdd a natur a'r dulliau a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 oddi mewn i amcan cyffredinol yr egwyddorion amgylcheddol.

*Canllawiau statudol*

26. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod ystyr a chymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn parhau i esblygu, ac roedd yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau yn esbonio sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu dehongli yng Nghymru. Byddai'r canllawiau hyn yn datblygu gwybodaeth a chyfraith achosion sy'n bodoli eisoes a byddent yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

27. Rydym yn cydnabod y safbwyntiau cryf a fynegwyd ynglŷn â'r angen am ganllawiau statudol er mwyn sicrhau bod pobl yn deall ystyr yr egwyddorion yn glir. Rydym yn cydnabod yr adborth a nododd ei bod yn hanfodol sicrhau bod y canllawiau ar gael i'r cyhoedd, bod angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt, a'u darparu mewn modd amserol mewn ffurf ddrafft cyn cyflwyno'r Bil. Rydym hefyd yn cytuno â'r adborth a nododd fod angen sicrhau bod modd diweddaru'r canllawiau, er enghraifft, i adlewyrchu newidiadau gwyddonol a thechnolegol. Byddwn yn mynd ati i ystyried sut y bydd modd cynnwys yr agweddau hyn yn effeithiol yn y Bil.

*Cwmpas y Ddyletswydd*

28. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu polisïau a chynigion ar gyfer deddfwriaeth.

29. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn ystyried i ba raddau y dylid gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig peidio â gwneud hyn, ond gofynnodd am adborth gan randdeiliaid i lywio'r safbwynt ymhellach.

30. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan sawl sefydliad ynglŷn â'r term 'sylw dyladwy' ac na fyddai, yn eu barn nhw, yn ddigon cryf i gyflawni amcanion yr egwyddorion. Byddwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddewisiadau amgen posibl a allai gryfhau'r ddyletswydd hon i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael yr effaith fwyaf.

31. Hefyd, rydym yn croesawu'r adborth gan randdeiliaid ynghylch a ddylai dyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Er mwyn adlewyrchu'r adborth cymysg, rydym yn bwriadu peidio

â chyflwyno dyletswydd ddiamod ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i gymhwyso'r egwyddorion yn eang. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion i gyrff ehangach mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, wrth ystyried cynlluniau a rhaglenni mawr sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

## Rhan B – Llywodraethiant Amgylcheddol

*Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol*

32. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol statudol ac annibynnol i Gymru (“y corff llywodraethiant”) trwy’r Bil. Amcan y corff llywodraethiant oedd helpu i gynnal a gwella safonau uchel o ddiogelwch amgylcheddol trwy oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan awdurdodau cyhoeddus Cymru a’u cydymffurfiaeth â hi. Wrth wneud hynny, byddai'r gweithgarwch yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ymchwilio i gwynion y cyhoedd am awdurdodau cyhoeddus yn torri cyfraith amgylcheddol a chymryd camau gorfodi lle bo angen, a chynghori Llywodraeth Cymru ar gyfraith a pholisi amgylcheddol.

33. Rydym yn croesawu'r ymateb ffafriol i sefydlu'r corff llywodraethiant, ac yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â sicrhau bod gan y corff llywodraethiant adnoddau digonol i gyflawni ei amcan yn effeithiol. Rydym yn cytuno â barn rhanddeiliaid y bydd yn hanfodol cadw annibyniaeth y corff llywodraethiant. Ar y sail honno, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid na ddylai Gweinidogion Cymru fod â phŵer cyffredinol i gyfarwyddo'r corff llywodraethiant. Hefyd, byddwn yn ystyried dulliau a fydd yn cryfhau gallu'r corff llywodraethiant i adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd, yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru.

34. Mynegodd rhanddeiliaid bryder am y gorgyffwrdd posibl gyda chyrff eraill sy'n gweithredu mewn maes tebyg, a'r angen i barhau i ganolbwyntio ac osgoi gweithredu y tu hwnt i'r amcanion. Rydym yn cytuno â hyn, a byddwn yn ceisio datblygu 'prif amcan', i'w nodi ar wyneb y bil, a fydd yn darparu rhagor o gyfarwyddyd clir. Yn ogystal, byddwn yn ceisio cryfhau'r ddarpariaeth yn y Bil i sicrhau bod gan y corff llywodraethiant gymhelliant priodol i gynnal perthynas waith agos ac effeithiol gyda phartneriaid, gyda'r nod o leihau dyblygiad a gwella'r ffordd y caiff swyddogaethau partneriaid eu cyflawni.

*Paratoi'r Strategaeth*

35. Cynigiodd y Papur Gwyn osod dyletswydd ar y corff llywodraethiant i gyhoeddi dogfen strategaeth yn amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei nodau. Byddai'r strategaeth hon yn cynnwys manylion am arferion a gweithdrefnau'r corff llywodraethiant mewn perthynas â monitro, ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

36. Rydym yn croesawu cymeradwyaeth gyffredinol rhanddeiliaid o'r strategaeth, gan gydnabod sut mae'r broses o nodi'r hyn sydd i'w gynnwys yn y strategaeth yn gallu rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethiant drwy'r ddeddfwriaeth, gan gynnig disgresiwn ac annibyniaeth ddigonol hefyd i sefydlu eu dulliau cyflawni eu hunain a'u ffyrdd o weithio. Rydym yn derbyn y farn gadarn a fynegwyd ynglŷn â sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei datblygu'n annibynnol, a gyda chyfle i ymgynghori â'r cyhoedd, a byddwn yn ceisio adlewyrchu hyn yn y Bil.

37. Yn ogystal, mynegodd ymatebwyr drwy gydol yr ymgynghoriad awydd am rôl gliriach o safbwynt goruchwyliaeth y corff llywodraethiant o dargedau amgylcheddol statudol - yn enwedig mewn perthynas â thargedau bioamrywiaeth. Rydym yn cydnabod y dylai hyn fod yn ganolbwynt penodol ar gyfer y corff llywodraethiant, ond nid ydym am gyfyngu'n ormodol ar ei allu i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau y mae'n eu nodi. O'r herwydd, byddwn yn archwilio gofyniad i'r corff llywodraethiant nodi yn ei strategaeth sut mae'n bwriadu monitro ac, os oes angen, adrodd ar dargedau amgylcheddol statudol, ochr yn ochr â'i swyddogaethau craidd eraill.

*Awdurdodau Cyhoeddus o fewn Cwmpas Goruchwylio*

38. Cynigiodd y Papur Gwyn y byddai'r corff llywodraethiant yn goruchwylio ystod eang o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru sy'n gallu cael effaith ar yr amgylchedd, a darparodd restr ddangosol (yn Atodiad 2 o'r Papur Gwyn). Roedd y rhestr hon yn cynnwys rheoleiddwyr amgylcheddol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru), awdurdodau datganoledig Cymru sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol, a chyrff preifat sydd â swyddogaethau amgylcheddol (e.e. cwmnïau dŵr). Hefyd, roedd y Papur Gwyn yn cydnabod na fydd y corff llywodraethiant yn rheoleiddiwr rheng flaen ei hun ac na fydd yn dyblygu gwaith rheoleiddwyr presennol fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

39. Rydym yn cydnabod barn rhanddeiliaid am yr angen i fod yn ofalus wrth restru 'cyrff unigol' yn y Bil ac yn cytuno y byddai dull gweithredu sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus perthnasol mewn 'diffiniad cyffredinol' yn fwy cynhwysfawr ac yn ffordd o ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Wrth ddatblygu'r dull gweithredu hwn, byddwn yn cymryd gofal i sicrhau bod y corff llywodraethiant wedi'i gyfyngu'n briodol wrth oruchwylio awdurdodau cyhoeddus dim ond mewn perthynas ag effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

*Swyddogaeth Fonitro ac Adrodd*

40. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig darparu pwerau i'r Corff Llywodraethiant i'w alluogi i fonitro effeithiolrwydd a gweithrediad cyfraith amgylcheddol, yn ogystal â sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Roedd hyn oherwydd y gydnabyddiaeth y byddai angen i'r Corff ddefnyddio data ac asesiadau i gyflawni ei swyddogaethau diffiniedig. O ganlyniad, ar adegau byddai'r Corff yn cynghori'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ar sail ei ganfyddiadau.

41. Hefyd, byddai'r corff llywodraethiant yn gallu craffu ar y broses o gyflawni targedau amgylcheddol statudol a osodir gan y Llywodraeth, sy'n cael eu hystyried yn gyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys y targedau bioamrywiaeth arfaethedig.

42. Rydym yn croesawu'r cytundeb cyffredinol â chwmpas a rôl monitro ac adrodd arfaethedig y corff llywodraethiant a fynegwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym yn cydnabod barn ymatebwyr bod angen bod yn ofalus i osgoi dyblygiad mewn perthynas â chasglu data, ac yn ehangach. Yn yr un modd â'r pryderon yn ymwneud â gorgyffwrdd, byddwn yn ceisio cryfhau ffocws a diben y corff llywodraethiant, yn ogystal â gwella gwaith partneriaeth, er mwyn lliniaru'r risg hon gymaint â phosibl.

43. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at bwysigrwydd atebolrwydd, gan ddadlau o blaid darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus ymateb i geisiadau'r Corff Llywodraethiant am wybodaeth ac adroddiadau mewn modd amserol. Rydym yn cytuno y dylai'r corff llywodraethiant gael y pwerau cefnogi angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth fonitro ac adrodd. Byddwn yn ymchwilio i fanteision gosod dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu â'r Corff Llywodraethiant a darparu cymorth rhesymol ar gyfer unrhyw geisiadau mewn perthynas â swyddogaethau'r corff llywodraethiant, a fyddai'n cynnwys darparu gwybodaeth.

44. Fel y nodwyd yn yr adran ar y strategaeth, roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid cryfhau ac egluro’n well rôl y corff llywodraethiant mewn perthynas â thargedau statudol - gan gynnwys targedau bioamrywiaeth. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gynnwys gofyniad i'r corff adlewyrchu hyn yn ei strategaeth, gan gynnwys sut y bydd y corff llywodraethiant yn gweithio i ategu a gwella gwaith cyrff cyhoeddus perthnasol eraill i graffu ar dargedau yng Nghymru, yn hytrach na dyblygu'r gwaith.

*Swyddogaeth Gynghori*

45. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai'r corff llywodraethiant newydd fod â'r pŵer i ddarparu cyngor gwybodus ac arbenigol, sy'n cynnwys newidiadau i gyfraith amgylcheddol a pholisi ehangach sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu, ar ôl ystyried cwynion a materion cydymffurfiaeth â'r system.

46. Rydym yn croesawu'r adborth a ddangosodd fod yr ymatebwyr yn cefnogi cwmpas a rôl arfaethedig swyddogaethau cynghori'r Corff yn gyffredinol. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen eglurder ynghylch a fyddai'r corff llywodraethiant yn gallu darparu cyngor ar ei liwt ei hun neu dim ond pan ofynnir iddo am gyngor. Roedd llawer o ymatebwyr yn ffafrio'r dewis cyntaf. Rydym yn cytuno bod gallu'r corff i weithredu ar ei liwt ei hun yn bwysig, a byddwn yn datblygu'r bil gyda'r nod o sicrhau bod y gallu hwn yn cael ei fynegi'n glir. Hefyd, byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r corff sicrhau bod y cyngor a roddir ganddo ar gael i'r cyhoedd, lle bo hynny'n briodol.

47. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r graddau y mae'n rhaid i'r corff llywodraethiant roi sylw i geisiadau am gyngor gan Weinidogion Cymru. Rydym o'r farn y dylid rhoi disgresiwn i'r corff llywodraethiant ynglŷn â sut mae'n ymdrin â cheisiadau o'r fath. Ni fydd yn orfodol i'r corff llywodraethiant ddarparu cyngor, ond os yw'r corff yn penderfynu peidio â darparu'r cyngor y gofynnwyd amdano, rhaid iddo egluro pam. Rhaid i'r cyngor a roddir i Weinidogion Cymru gael ei gyhoeddi gan y corff llywodraethiant.

48. Roedd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi codi pryderon am sut y gellid ymdrin â phryderon amwys am ddiffyg cydymffurfiaeth. Enghraifft bosibl o hyn yw ymchwiliad sy'n codi pryderon o fewn y corff llywodraethiant yn ymwneud â ph'un a yw Gweinidogion Cymru neu awdurdod cyhoeddus yn rhoi cyfraith amgylcheddol ar waith, nad yw'n achos clir o ddiffyg cydymffurfiaeth, ond sydd, serch hynny, yn amlygu rhai pryderon yn ymwneud â dehongli neu ymddygiad y byddai'n ddefnyddiol mynd i'r afael â nhw ym marn y corff llywodraethiant.

49. O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn ystyried manteision rhoi hawl i'r corff gyhoeddi hysbysiad cynghori i nodi gwelliannau perthnasol a argymhellir i brosesau neu ganllawiau er mwyn lliniaru'r risg y bydd yr awdurdod cyhoeddus perthnasol yn methu cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn y dyfodol yn y meysydd hynny. Dylid cyhoeddi'r hysbysiadau cynghori hyn ar wefan y corff llywodraethiant. Rhagwelir y gallai hyn ddarparu adnodd ychwanegol i helpu'r corff llywodraethiant i sbarduno newid cadarnhaol, yn ogystal â chynyddu tryloywder.

<u>Swyddogaeth Ymdrin â Chwynion neu Sylwadau</u>

50. Amlinellodd y Papur Gwyn sut y bydd y corff amgylcheddol newydd yng Nghymru yn ymdrin â chwynion neu sylwadau am weithrediad cyfraith amgylcheddol, yn ogystal ag achosion honedig o gyrff cyhoeddus Cymru yn torri cyfraith amgylcheddol. Pwysleisiodd na fyddai cwynion yn cael eu derbyn mewn perthynas â phenderfyniadau penodol gan gyrff cyhoeddus (e.e. trwyddedau neu ganiatâd cynllunio) oni bai eu bod yn ymwneud â chydymffurfiaeth ehangach â chyfraith amgylcheddol. Hefyd, disgwyliwyd y dylid mynd i'r afael â materion drwy weithdrefn gwyno fewnol y corff cyhoeddus perthnasol ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol yn y lle cyntaf.

51. Byddai'r weithdrefn gwyno yn cael ei chynllunio gan y corff newydd a'i chyhoeddi yn ei strategaeth, a byddai'n cynnwys manylion am sut mae cynnydd ar gwynion yn cael ei gyfleu, y meini prawf a ddefnyddir i asesu cwynion cyn cynnal ymchwiliad, sut y gellir uwchgyfeirio cwynion, a'r broses o wneud penderfyniadau.

52. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu a amlinellir yn y Papur Gwyn ar gyfer rheoli cwynion a sylwadau, ond rydym yn cydnabod bod nifer sylweddol o ymatebwyr wedi codi pryderon am anallu'r corff i ymdrin â chwynion am benderfyniadau penodol/unigol. Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid yn pryderu am y ffaith ei bod yn anodd defnyddio gweithdrefnau cwynion mewnol awdurdodau cyhoeddus. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr posibl i gyflawni diben y

corff llywodraethiant yn effeithiol os oes angen dihysbyddu gweithdrefnau cwyno eraill cyn i'r corff llywodraethiant ystyried y mater.

53. Rydym wedi myfyrio ar y pryderon hyn ac wedi diwygio ein dull gweithredu. Nid ydym yn bwriadu gosod unrhyw gyfyngiadau ar sylwadau sy'n cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethiant gan unigolion neu sefydliadau, gan gynnwys gofynion a nodwyd yn flaenorol yn ymwneud â dihysbyddu gweithdrefnau cwyno. Wrth ddileu'r cyfyngiadau hyn, rydym am fod yn glir na fydd y corff llywodraethiant yn gweithredu fel 'corff apeliadau' ac na fydd disgwyl iddo ymateb i bob cyflwyniad sy'n dod i law.

54. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y corff y disgresiwn i weithredu ar sail gwybodaeth gan y cyhoedd mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol. Wrth ystyried y 'sylwadau' hyn, gall y corff llywodraethiant benderfynu lansio ymchwiliad i archwilio'r pryderon hyn ymhellach. Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd y corff llywodraethiant yn teimlo bod ganddo ddigon o wybodaeth i weithredu, a byddai'n gwbl ddilys peidio â gwneud hynny, ar yr amod bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu'n glir. Fodd bynnag, byddai'r dull gweithredu diwygiedig hwn yn golygu mai'r corff llywodraethiant ei hun sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn, yn hytrach na bod cyfyngiadau yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth.

55. Yn y cyd-destun hwn, bydd hyd yn oed yn bwysicach bod strategaeth y corff llywodraethiant yn amlinellu ei weithdrefnau ar gyfer rheoli sylwadau am effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol a/neu fethiannau honedig awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

*Swyddogaeth Ymchwilio*

56. Cynigiodd y Papur Gwyn y bydd gan y corff llywodraethiant newydd y pŵer i ymchwilio i achosion honedig o dor cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. Awgrymodd y gallai'r corff ei hun gychwyn yr ymchwiliadau hyn, yn seiliedig ar ganfyddiadau ei waith monitro, yn ogystal â mewn ymateb i gwynion a sylwadau'r cyhoedd.

57. Fel rhan o'r swyddogaeth ymchwilio, cynigiwyd y gallai'r corff gyhoeddi "Hysbysiadau Gwybodaeth" yn gofyn am wybodaeth gan gyrff cyhoeddus o fewn terfynau amser penodol, a chymryd camau gorfodi yn erbyn cyrff cyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio â'r hysbysiadau hyn.

58. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i gyflwyno pŵer i'r corff llywodraethiant i ymchwilio i achosion honedig o dor cyfraith amgylcheddol, gan gynnwys cyfle i'r corff llywodraethiant ymchwilio ar ei liwt ei hun yn ogystal â mewn ymateb i sylwadau gan y cyhoedd, a'r pŵer i gyhoeddi 'hysbysiadau gwybodaeth' pan fydd angen rhagor o wybodaeth. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen cyhoeddi canllawiau er mwyn i'r cyhoedd ddeall yr egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau i ymchwilio, a bod angen cyhoeddi pob penderfyniad. Er mwyn adlewyrchu hyn, rydym yn bwriadu gosod dyletswydd ar y corff llywodraethiant i amlinellu ei ddull ymchwilio yn ei strategaeth. Dylai hyn gynnwys (ond nid o reidrwydd bod yn gyfyngedig i) sut y bydd ymchwiliadau'n

cael eu trin, eu blaenoriaethu, sut mae'n bwriadu defnyddio hysbysiadau gwybodaeth, ac yn ystod pa gam y bydd awdurdod cyhoeddus yn cael gwybod bod ymchwiliad yn cael ei ystyried neu'n cael ei gynnal.

*Swyddogaeth Orfodi*

**Y Dull Gweithredu**

59. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig ystod o bwerau gorfodi ar gyfer y corff llywodraethiant. Byddai'r corff yn defnyddio dull gweithredu uwchgyfeirio gan flaenoriaethu penderfyniadau a chyngor anffurfiol cyn troi at gamau gorfodi. Hefyd, byddai'r corff yn gallu arfer disgresiwn, gan benderfynu ei hun sut i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth ar sail y sefyllfa.

60. Mynegwyd cefnogaeth i'r dull uwchgyfeirio yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys defnyddio adnoddau a phrosesau mwy anffurfiol i ddatrys problemau, ac osgoi'r gweithdrefnau mwy ffurfiol.

61. Rydym yn croesawu'r adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ar y dull arfaethedig o roi camau gorfodi ar waith. Byddwn yn parhau i ddatblygu darpariaeth er mwyn galluogi'r Corff Llywodraethiant i orfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Corff Llywodraethiant lunio polisi gorfodi fel rhan o'i strategaeth. Bydd y polisi yn cynnwys manylion am yr amgylchiadau lle bydd camau gorfodi'n cael eu defnyddio, pryd y bydd awdurdod cyhoeddus yn cael gwybod a sut y bwriedir blaenoriaethu achosion.

62. Yn ystod ein hymgysylltiad, fe wnaeth rhanddeiliaid gymeradwyo ein safbwynt bod camau unioni cynnar yn well nag ymateb gorfodi mewn sefyllfaoedd lle y credir bod awdurdodau cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Felly, bydd gan y corff llywodraethiant y grym i weithio'n adeiladol gydag awdurdodau cyhoeddus Cymru i ddod i benderfyniad anffurfiol lle bo hynny'n bosibl, ac wrth wneud hynny, rhaid cyhoeddi'r canlyniad er mwyn cynorthwyo tryloywder.

**Hysbysiadau Cydymffurfio**

63. Amlinellwyd y drefn Hysbysiadau Cydymffurfio yn y Papur Gwyn fel y prif ddull ffurfiol o ddatrys diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r dull gweithredu hwn, er bod llawer wedi pwysleisio ei bod yn bwysig sicrhau bod gweithdrefnau diffyg cydymffurfiaeth yn amserol ac yn gost-effeithiol, gan osgoi ffioedd cyfreithiol drud rhwng cyrff y sector cyhoeddus. Awgrymwyd bod angen prosesau sy'n helpu i ddatrys anghydfod yn gyflym yn hytrach na phroses araf a allai wastraffu adnoddau. Hefyd, nodwyd y dylai achos llys fod yn ddewis pan fetha popeth arall.

**Apeliadau**

64. Croesawodd y Papur Gwyn safbwyntiau ar yr awgrym y dylid cyfeirio apêl awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn erbyn hysbysiadau cydymffurfio, neu fethiant i gydymffurfio â hysbysiadau cydymffurfio, i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf arfaethedig Cymru. Gan nad yw'r ddeddfwriaeth i sefydlu system dribiwnlysoedd ddatganoledig newydd i Gymru wedi'i chyflwyno eto, mae'n bosibl na fydd system dribiwnlysoedd newydd Cymru yn weithredol pan fydd y Bil hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol. Nodwyd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gallai'r Bil hwn ddarparu ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru yn fwy hirdymor. Fodd bynnag, pe na bai hyn yn cael ei ystyried yn ddichonadwy, byddem yn archwilio opsiynau i'r Corff Llywodraethiant gyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'r Uchel Lys neu Dribiwnlys yr Haen Gyntaf Cymru a Lloegr.

65. O ran camau gweithredu yn dilyn apêl yn erbyn Hysbysiad Cydymffurfio, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod gan system y tribiwnlys sawl mantais dros yr Uchel Lys, gan gyfeirio at fynediad at arbenigedd amgylcheddol ac atebion ystyrlon ac effeithiol.

66. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus iawn i'r opsiynau a'r goblygiadau amrywiol ar gyfer gweithredu yn dilyn diffyg cydymffurfiaeth â Hysbysiad Cydymffurfio gan awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod y broses ymgysylltu ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd rhai rhanddeiliaid fod angen cymesuredd ac y dylid ceisio lleihau'r costau a'r beichiau ychwanegol a roddir ar awdurdodau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau.

67. Er mwyn adlewyrchu hyn, rydym wedi ystyried a oes modd lleihau'r posibilrwydd o ffioedd a gweithdrefnau cyfreithiol costus rhwng cyrff y sector cyhoeddus sy'n deillio o'r broses apelio, ac a fyddai modd dyfeisio proses apelio sy'n lleihau'r baich ariannol a gweinyddol a roddir ar awdurdodau cyhoeddus. Yn ogystal â gofynion adnoddau, gallai'r broses o gyflwyno apêl i'r system farnwrol achosi oedi hir yn y broses orfodi, er y nodir y gallai apêl i'r system dribiwnlys fod yn gyflymach nag apêl i'r Uchel Lys.

68. Ar ôl pwyso a mesur, rydym wedi penderfynu y byddai system o rymuso awdurdodau cyhoeddus, sy'n dymuno herio eu hysbysiad cydymffurfio, i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r corff llywodraethiant yn ddull mwy cymesur o apelio ar gyfer awdurdodau cyhoeddus Cymru. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i ddulliau a fydd yn cryfhau'r gallu i drin unrhyw apeliadau o'r fath yn deg ac yn dryloyw.

69. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sefydlu 'sgriniau' mewnol i sicrhau bod 'person/personau' gwahanol yn ymdrin â'r apêl na'r 'person/personau' a gyhoeddodd yr Hysbysiad Cydymffurfio yn wreiddiol. Rydym yn awyddus i wneud rhagor o waith gyda rhanddeiliaid ar y mater hwn i sicrhau hyder mewn system gadarn.

**Cyfeiriadau i'r Llys**

70. Roedd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno bod rhaid cynnwys y dewis o gyflwyno achos llys, ond dim ond fel dewis pan fetha popeth arall.

71. Os yw Gweinidogion Cymru neu awdurdodau cyhoeddus Cymru yn apelio yn aflwyddiannus a/neu'n dewis peidio â chymryd camau yn unol â hysbysiad cydymffurfio, rydym yn bwriadu rhoi'r grym i'r corff llywodraethiant gyfeirio'r diffyg cydymffurfiaeth hwn i Uchel Lys Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y swyddogaethau gorfodi ddigon o rym. Yn ogystal, byddai hyn yn golygu y gallai methu â chydymffurfio â'r gorchymyn llys arwain at ddirmyg llys o dan bwerau presennol y llys gan ddarparu mynediad at yr amrywiaeth arferol o ddatrysiadau sydd ar gael dan yr amgylchiadau hyn (a allai gynnwys cosbau ariannol).

72. Rydym yn bwriadu ystyried cryfhau hyn drwy gynnwys darpariaeth uniongyrchol yn y Bil a allai egluro y byddai methu â chydymffurfio â gorchymyn llys i weithredu ar sail yr hysbysiad cydymffurfio yn arwain at ddirmyg llys.

## Adolygiad Barnwrol ac Ymyrraeth mewn Achosion Sifil

73. Yn ôl y Papur Gwyn, yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y byddai'r corff llywodraethiant yn unioni unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol naill ai drwy ddull cynghori neu drwy gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio (gan gynnwys, os oes angen, uwchgyfeirio i'r system gyfiawnder). Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, mae’n bosibl y bydd angen i’r corff llywodraethiant wneud cais am adolygiad barnwrol, neu wneud cais i ymuno ag achos adolygiad barnwrol, heb fynd trwy’r broses orfodi uchod yn gyntaf. Er enghraifft, os yw ymddygiad awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn gyfystyr â methiant difrifol neu frys i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a bod angen atal, neu liniaru, niwed difrifol i'r amgylchedd naturiol neu i iechyd pobl.

74. Cynigiwyd hefyd y dylai'r corff llywodraethiant allu ymyrryd mewn achos sifil sydd eisoes ar waith er mwyn gwneud cyflwyniad i'r llys ar fater yn ymwneud â'i swyddogaethau. Dylai’r ymyrraeth hon fod yn ‘eithriad’, wedi’i chyfyngu i amgylchiadau lle mae angen ymyrryd er mwyn atal, neu liniaru, niwed amgylcheddol difrifol yn unig.

75. Rydym yn croesawu cytundeb y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r dull gweithredu hwn. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai pwerau i wneud cais am adolygiad barnwrol yn ogystal â'r pŵer i ymyrryd mewn achos sifil gael eu nodi yn benodol yn y Bil. Hefyd, roedd yr adborth yn cefnogi'r angen i egluro ystyr methiant 'brys' a 'difrifol' i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng nghyd-destun adolygiad barnwrol. Byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i sut mae pŵer y corff llywodraethiant i wneud cais am adolygiad barnwrol yn cael ei gymhwyso mewn achosion eithriadol yn unig, er enghraifft mewn achosion difrifol neu frys.

## Cosbau ariannol

76. Eglurodd y Papur Gwyn na fyddai gan y corff y pŵer i gyflwyno dirwyon i gyrff cyhoeddus, ar y sail y byddai'n aneffeithiol (e.e. gall dirwyon gylchredeg arian o fewn y sector cyhoeddus heb ddatrys y broblem), ac y byddai'n arwain at ddyblygu ymdrech o ystyried bod gan reoleiddwyr presennol y pŵer i gyflwyno dirwyon os oes angen.

77. Yn gyffredinol, roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno y byddai cosbau ariannol yn ddull aneffeithiol ac, mewn rhai achosion, yn ddull gwrthgynhyrchiol o gywiro methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno y byddai cosbau ariannol yn aneffeithiol, roeddent yn parhau i gredu y dylid cynnwys yr opsiwn hwn fel 'dewis pan fetha popeth' arall pan fo dulliau eraill wedi eu harchwilio a'r rheiny wedi methu.

78. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn ac yn ymwybodol o fanteision sicrhau bod gan y broses orfodi fynediad at atebion ariannol fel dewis pan fetha popeth arall. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai'r llysoedd yn gallu gwneud hyn yn well, yn hytrach na darparu pŵer penodol i'r corff llywodraethu roi dirwyon. Mae hyn ar sail y ffaith mai dim ond ar ôl dihysbyddu pob llwybr arall y byddai hyn yn digwydd. Yn y cyswllt hwn, rydym o'r farn y byddai'r dull uchod o ymdrin ag atgyfeiriadau i'r llys yn galluogi'r llysoedd i sicrhau atebion addas i achosion o fethu â chydymffurfio â Gorchymyn y Llys, gan gynnwys cosbau ariannol.

<u>Adroddiadau Gwella</u>

79. Hefyd, awgrymodd y Papur Gwyn y dylid darparu pŵer i'r corff gynhyrchu Adroddiadau Gwella a chyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru, y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â materion cydymffurfio systemig, gan gynnwys achosion lle mae cyrff cyhoeddus lluosog yn methu â chydymffurfio ag agweddau tebyg ar gyfraith amgylcheddol. Hefyd, gellid defnyddio adroddiadau gwella i adrodd ar aneffeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Byddai'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru (ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ôl yr angen). Byddai gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ymateb i'r adroddiadau hyn trwy gyflwyno cynllun gwella yn amlinellu eu camau gweithredu neu eu rhesymau dros wrthod yr argymhellion.

80. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai cyhoeddi adroddiadau gwella yn rhan o gwmpas y Corff Llywodraethiant. Fodd bynnag, gofynnwyd am eglurder, er enghraifft, ynghylch a fyddai'r adroddiadau hyn ar gael i'r Senedd a'r cyhoedd, yn ogystal â'r broses arfaethedig os nad yw Gweinidogion yn derbyn eu hargymhellion. Yn ystod y broses ymgysylltu, cododd rhanddeiliaid bryderon y gallai'r dull sy'n cael ei ddiffinio yn y Papur Gwyn mewn perthynas ag adroddiadau gwella hefyd fod yn rhy gyfyngol, gan y gallai achosion ehangach godi lle nad yw'r corff llywodraethiant, yn dilyn ymchwiliad, yn credu y bydd hysbysiad cydymffurfio yn ymdrin yn effeithiol ag achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. Yn y cyswllt hwn, mae'n bosibl y bydd angen anfon adroddiadau gwella at awdurdodau cyhoeddus Cymru y tu hwnt i Weinidogion Cymru yn unig.

81. Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid, byddwn yn datblygu cynigion i'r Corff Llywodraethiant gyhoeddi Adroddiadau Gwella i Weinidogion Cymru a, lle bo'n berthnasol, i awdurdodau cyhoeddus Cymru. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried darpariaeth sy'n nodi bod yn rhaid i'r corff llywodraethiant fod yn fodlon nad yw hysbysiad cydymffurfio yn gallu mynd i'r

afael â'r mater yn effeithiol cyn mynd ati i baratoi adroddiad gwella. Bydd yr adroddiad yn argymell mesurau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon y corff llywodraethiant, a bydd yn cynnwys y rhesymau dros ddod i'r penderfyniad, effaith y methiant, ac yn rhoi amlinelliad o'r amserlen ar gyfer derbyn ymateb. Byddai angen gosod yr Adroddiad Gwella gerbron y Senedd.

*Partneriaeth*

82. Nododd y Papur Gwyn y bydd tryloywder a chydweithio yn allweddol i effeithiolrwydd y corff llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig. I gefnogi hyn, cynigiodd y Papur Gwyn fod yn rhaid i'r corff llywodraethiant gynnwys adran yn ei strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yn cydweithio'n effeithiol â sefydliadau eraill sy'n rhannu nodau tebyg. Roedd disgwyl i'r corff llywodraethiant sefydlu dulliau clir o gydweithredu er mwyn osgoi dyblygu ymdrech.

83. Roedd ymatebwyr yn cydnabod ein barn y byddai gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn deall rôl a swyddogaethau'r corff llywodraethiant newydd yn glir, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer gorgyffwrdd â sefydliadau eraill, tebyg, megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'r cyrff llywodraethiant cyfatebol sydd wedi'u sefydlu trwy ddeddfwriaeth y DU a'r Alban.

84. Byddwn yn archwilio darpariaeth gyfreithiol sy'n cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar osgoi'r potensial ar gyfer dyblygu, gorgyffwrdd a defnyddio adnoddau yn aneffeithlon. Hefyd, byddwn yn ceisio archwilio cyfleoedd ar gyfer rhannau adnoddau, yn enwedig lle bo modd rhannu swyddogaethau cefn swyddfa i wella effeithlonrwydd y corff llywodraethiant, ac awdurdodau cyhoeddus ehangach hefyd. Fodd bynnag, byddwn yn gweithredu mewn ffordd ofalus er mwyn sicrhau na fyddai'r dull gweithredu yn peryglu annibyniaeth y corff llywodraethiant na'i oruchwyliaeth effeithiol o awdurdodau cyhoeddus.

*Ffurf a Model Gweithredu'r Corff Llywodraethiant*

**Model Gweithredu**

85. Roedd y papur Gwyn yn cynnwys ystyriaeth o'r model gweithredu mwyaf priodol a fyddai'n cefnogi prif bwrpas y corff llywodraethiant. Fel rhan o hyn, rhoddwyd ystyriaeth benodol i annibyniaeth y corff llywodraethiant mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, yr ystod o arbenigedd sydd ei angen i fynd i'r afael â materion amgylcheddol cymhleth, yn ogystal ag effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau. Daeth y Papur Gwyn i'r casgliad mai 'model comisiwn' yw'r dull a ffefrir, ond gofynnodd am safbwyntiau ehangach.

86. Nododd yr ymatebion fanteision (a phryderon) a allai ddeillio o fodelau corff comisiwn a chorff hyd braich. Er mwyn adlewyrchu hyn, rydym wedi penderfynu mai dull 'hybrid' fyddai'n gweddu orau i fwriad polisi'r corff llywodraethiant. Er enghraifft, byddai hyn yn ein galluogi i wireddu rhai o fanteision allweddol model comisiwn, megis sefydlu bwrdd o arbenigwyr sy'n gallu eirioli dros yr amgylchedd, a hefyd defnyddio nodweddion cyffredin cyrff hyd braich fel bod

gwaith y bwrdd yn canolbwyntio ar ddarparu cyfeiriad strategol fel aelodau 'anweithredol'; a hwyluso swyddogaeth weithredol â digon o adnoddau (gan gynnwys cael Prif Weithredwr yn aelod o'r bwrdd) i reoli'r gwaith bob dydd. Yn y bôn, ni fyddwn yn cael ein cyfyngu gan un model, ond byddwn yn ceisio defnyddio elfennau perthnasol er mwyn sefydlu corff llywodraethiant annibynnol, arbenigol a galluog sydd ag adnoddau da.

### Maint y Corff

87. Awgrymodd y Papur Gwyn y byddai'r corff llywodraethiant yn cael ei arwain gan Fwrdd sy'n cynnwys Cadeirydd a thua 7-8 comisiynydd arall. Awgrymodd y dylai'r Bwrdd gynnwys setiau sgiliau sy'n cynnwys, er enghraifft, arbenigedd ym maes cyfraith amgylcheddol.

88. Byddai angen darparu staff cymorth ar gyfer y corff llywodraethiant hefyd. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig cymorth cefn swyddfa ar gyfer tua deuddeg aelod o staff ychwanegol, ond roedd yn cydnabod bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i bolisi yn ymwneud â maint y corff llywodraethiant, ac roedd yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid.

89. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r ystod o arbenigedd a awgrymwyd, ond roeddent am weld nifer ychydig yn llai o 'gomisiynwyr', a fyddai'n canolbwyntio ar ddarparu cyfeiriad strategol, a swyddogaeth weithredol gryfach a fyddai'n canolbwyntio ar gyflawni yn y maes hwn. Rydym yn cydnabod manteision y dull hwn, ac yn cytuno'n benodol y dylai'r bwrdd ganolbwyntio ar gyfeiriad strategol a chael ei gefnogi gan fwrdd gweithredol cadarn, gyda'r Prif Weithredwr yn gwasanaethu fel aelod o'r bwrdd. Byddwn yn datblygu hyn ymhellach gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd gwell rhwng cyfeiriad a darpariaeth, gan sicrhau bod y corff llywodraethiant yn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

### Cyllido

90. Ystyriodd y Papur Gwyn sut y bydd y corff llywodraethiant yn cael ei gyllido, gan ystyried yn benodol manteision darparu cyllid yn uniongyrchol drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru, neu fel arall archwilio Cronfa Gyfunol Cymru. Daeth i'r casgliad mai cyllido uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yw'r opsiwn a ffefrir, gan ei fod yn darparu mwy o hyblygrwydd a galluogrwydd cyllidebol i ymateb i anghenion sy'n newid. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y posibilrwydd y bydd angen gweithdrefnau ychwanegol er mwyn rheoli achosion lle gallai buddiannau wrthdaro mewn perthynas â Gweinidog Cymru yn pennu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer corff a allai fod yn craffu arno. Er enghraifft, gallai penderfyniadau yn ymwneud ag ariannu'r corff gael eu gwneud gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gyllid yn hytrach na'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb polisi dros yr amgylchedd.

91. Rydym yn cydnabod y pryderon am adnoddau a godwyd gan ymatebwyr, a oedd yn pwysleisio y dylai'r corff llywodraethiant fod mor effeithlon â phosibl ac y dylid archwilio llwybrau er mwyn cydleoli â chyrff cyhoeddus eraill lle bo

hynny'n bosibl, yn ogystal â rhannu swyddogaethau cefn swyddfa, ar yr amod nad yw hyn yn peryglu ei annibyniaeth a/neu ei oruchwyliaeth o awdurdodau cyhoeddus. Rydym yn cytuno â'r dull hwn a byddwn yn ceisio datblygu dulliau eraill o arbed costau wrth roi'r corff llywodraethiant ar waith, er y byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau nad yw hyn yn erydu annibyniaeth y corff na'i allu i oruchwylio awdurdodau cyhoeddus Cymru.

92. Nodwyd bod dulliau cyllido yn bryder penodol, ac roedd llawer o ymatebwyr am weld darpariaeth i sicrhau bod gan y corff llywodraethiant ddigon o adnoddau yn ogystal â chymeradwyo rôl 'cyllidebau wedi'u clustnodi'. Byddwn yn datblygu hyn ymhellach ac yn ymchwilio i rôl darpariaeth ddeddfwriaethol fel dull o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu digon o adnoddau.

## Rhan C – Bioamrywiaeth

Fframwaith Adfer Natur Cymru

93. Cynigiodd y Papur Gwyn fframwaith adfer natur Cymru sy'n cynnwys sawl elfen fel yr amlinellir yn Adran 1 Rhan C uchod.

94. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'n cynnig, ond gofynnodd ymatebwyr am fwy o fanylion am bob un o'r elfennau gwahanol. Hefyd, codwyd pryderon am yr adnoddau a'r cyllid sydd eu hangen er mwyn casglu a monitro data, a rhoi camau gweithredu ar waith.

95. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i gyfeirio at waith presennol Partneriaethau Natur Lleol mewn perthynas â'r ddyletswydd yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau, a'r posibilrwydd y gallent weithredu fel mecanwaith cyflawni ar gyfer y fframwaith adfer natur arfaethedig.

Targed Pennawd

96. Cynigiodd y Papur Gwyn y byddai'r Bil yn cynnwys targed pennawd, a oedd yn adlewyrchu iaith y garreg filltir bioamrywiaeth, fel y'i datblygwyd yn 2022 o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddai'r targedau bioamrywiaeth yn cael eu datblygu gyda'r nod o gyflawni'r targed pennawd hwn.

97. Cafwyd cytundeb cyffredinol ynglŷn â chyflwyno targed pennawd, ond roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai modd gorfodi na chyflawni geiriad arfaethedig y targed pennawd.

98. Roedd rhai yn pryderu am ddichonoldeb yr amserlenni a bennir yng ngeiriad y targed pennawd (yn enwedig 'erbyn 2030') ac am y gallu i fesur cynnydd yn erbyn y targed pennawd.

99. O ganlyniad i adborth, rydym yn ystyried disodli'r targed pennawd â 'datganiad o ddiben neu ddatganiad cenhadaeth' natur-bositif. Bydd hyn yn crynhoi ein

dyheadau ar gyfer Cymru natur-bositif er budd pobl a'r blaned ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer elfennau statudol ac anstatudol Fframwaith Adfer Natur Cymru.

100. Rydym yn cytuno ag ymatebwyr i'r ymgynghoriad a chyfranogwyr y gweithdai ymgysylltu fod modd i ni, trwy ehangu'r geiriad, hyrwyddo a galluogi camau gweithredu gan gymdeithas gyfan a chefnogi newid trawsnewidiol. Drwy gyflawni'r targed yn fwy cyfannol, gallwn fynd i'r afael â'r sbardunau, y bygythiadau a'r pwysau ar fioamrywiaeth hefyd.

101. Nodwyd yn ein Papur Gwyn mai bwriad y ddeddfwriaeth hon yw bod yn rhan o'n hymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF), sy'n mynd i'r afael â'r angen am weithredu ar frys i ymateb i'r argyfwng bioamrywiaeth. Wrth ddatblygu datganiad o ddiben neu ddatganiad cenhadaeth, byddwn yn ystyried geiriad gweledigaeth a chenhadaeth y GBF, a sut y gellid ei addasu yng nghyd-destun Cymru. Byddai hyn yn ymgorffori'r angen am gamau trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur o fewn fframwaith deddfwriaethol Cymru. Gellid ystyried rôl targed pennawd ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu targedau bioamrywiaeth statudol mewn is-ddeddfwriaeth.

102. Gan gydnabod y newid arfaethedig o'r Papur Gwyn, byddwn yn ymgymryd â rhaglen wedi'i thargedu o ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael adborth ar ein cynnig ar gyfer datganiad o ddiben neu ddatganiad cenhadaeth.

<u>Targedau bioamrywiaeth</u>

103. Cynigiodd y Papur Gwyn y byddai targedau bioamrywiaeth sy'n sylfaen i'r targed pennawd natur-bositif yn cael eu gosod gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth, yn bennaf ar sail y pynciau lefel uchel canlynol: rhywogaethau (dosbarthiad, toreithrwydd a risg diflannu), cynefin (amddiffyn, rheoli ac adfer) ac iechyd, gwytnwch ac adferiad ecosystemau.

104. Roedd gan yr ymatebwyr agwedd gadarnhaol at y cynigion y dylai Gweinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth mewn is-ddeddfwriaeth ar sail y pynciau lefel uchel hyn, ond roedd ymatebwyr yn dymuno gweld cwmpas ehangach e.e. mynd i'r afael â sbardunau colli bioamrywiaeth, targedau addysg sy'n seiliedig ar offer, adnoddau, rheoli adnoddau naturiol, a phrif ffrydio, ymhlith eraill.

105. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid datblygu'r targedau bioamrywiaeth mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac arbenigwyr, a bod angen pennu terfyn amser amdanynt gan osod targedau hirdymor a dros dro mewn is-ddeddfwriaeth.

106. Byddwn yn cyflwyno fframwaith gosod targedau i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth drwy is-ddeddfwriaeth, a bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau drwy reoliadau. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau targed. Wrth osod, diwygio neu ddirymu targedau, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor annibynnol ac arbenigol. Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio'r fframwaith gosod targedau

i gysylltu â'r datganiad o ddiben neu'r datganiad cenhadaeth natur-bositif, a chyfrannu tuag atynt.

107. Yn ogystal â'r pŵer a'r ddyletswydd i osod targedau, bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

108. Cynigiodd y Papur Gwyn y bydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn adrodd yn erbyn y targedau bioamrywiaeth a osodwyd gan Weinidogion Cymru i greu un adroddiad diffiniol a hygyrch ar gyfer natur yng Nghymru.

109. Roedd cytundeb cyffredinol ar gyfer y cynnig i ddefnyddio SoNaRR i adrodd yn erbyn y targedau bioamrywiaeth, ond mynegwyd pryderon am yr adnoddau presennol sydd ar gael i CNC wrth lunio SoNaRR, a'r straen y gallai'r gofynion adrodd ychwanegol ei roi ar y sefydliad.

110. Hefyd, nododd yr ymatebwyr fod angen tystiolaeth ychwanegol sylweddol a bod angen casglu data. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid symleiddio fformat adrodd presennol SoNaRR a rhoi mwy o bwyslais ar gyflwyno'r dystiolaeth sydd ar gael.

111. Byddwn yn parhau i ddefnyddio SoNaRR i adrodd ar sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth adrodd ar gyflwr bioamrywiaeth, bydd SoNaRR hefyd yn adrodd ar gynnydd Gweinidogion Cymru tuag at gyflawni'r datganiad o ddiben neu'r datganiad cenhadaeth natur-bositif a thargedau bioamrywiaeth. Er mwyn cynorthwyo'r broses o adrodd ar gynnydd, byddwn yn datblygu dangosyddion pennawd a allai ddod, yn rhannol, o'r dangosyddion a enwir yn y GBF yn ogystal â dangosyddion perthnasol eraill o Gymru, y DU, ac yn rhyngwladol. Gan fod nifer o'r dangosyddion GBF eisoes wedi'u sefydlu'n dda, a bod data wedi'i gasglu ar lefel ryngwladol neu yn y DU, rydym yn gobeithio lleihau'r gwaith monitro data ychwanegol sydd ei angen yng Nghymru.

112. Byddwn yn gweithio'n agos gyda CNC i adolygu'r fformat SoNaRR presennol ac ystyried ymhellach sut y byddai modd adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r dangosyddion pennawd.

Datganiad Gweinidogion Cymru

113. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru, erbyn dyddiad penodol, yn gosod gerbron y Senedd, ac yn cyhoeddi, ddatganiad i adrodd a yw'r targedau bioamrywiaeth wedi'u cyflawni.

114. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Datganiad Gweinidogion Cymru, ond roedd rhai o'r farn bod y broses sy'n cael ei dilyn pan nad yw targed yn cael ei gyflawni yn broses wan. Byddai'r cynnig gwreiddiol wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru esbonio pam nad yw targed wedi'i gyflawni a gofyn am gyngor annibynnol ac arbenigol ar ba gamau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau. Gofynnodd ymatebwyr am fwy o dryloywder ac atebolrwydd ar gyfer

gweithredoedd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â pholisïau amgylcheddol a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth ledled Cymru.

115. O ystyried yr adborth hwn, byddwn yn cryfhau'r dyletswyddau yn natganiad cwblhau targedau Gweinidogion Cymru i gynnwys y camau i'w cymryd os nad yw targed yn cael ei gyflawni. Mewn achos o fethu â chyflawni targed, byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynglŷn â pham na lwyddodd Gweinidogion Cymru i gyflawni'r targed a pha gamau sy'n cael eu cynnig ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

116. Hefyd, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gwblhau adroddiad gwerthuso ar effeithiolrwydd camau polisi sydd wedi'u cymryd gan Weinidogion Cymru tuag at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth a'r datganiad o ddiben neu'r datganiad cenhadaeth natur-bositif. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn y flwyddyn galendr cyn etholiad cyffredinol er mwyn llywio'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP).

117. Rydym yn cytuno bod angen codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth ledled Cymru ac i'r gymdeithas gyfan 'weithredu fel un ar gyfer byd natur.' Rydym yn cynnig cynnwys dyletswydd newydd yn nyletswyddau Gweinidogion Cymru er mwyn gwella cyfathrebu, addysg a hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

Strategaeth Adfer Natur

118. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a chyflwyno Strategaeth Adfer Natur hirdymor ar gyfer Cymru, gan amlinellu'r dull o gyflawni'r targedau bioamrywiaeth yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r GBF.

119. Mae cyfran fawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno strategaeth adfer natur hirdymor, yn enwedig strategaeth sy'n cael ei datblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau amgylcheddol eraill ac sy'n datblygu mecanweithiau presennol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Phartneriaethau Natur Lleol.

120. Yn hytrach na chreu strategaeth newydd, byddwn yn cyflwyno Strategaeth Adfer Natur Cymru hirdymor trwy addasu'r Polisi Adnoddau Naturiol presennol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith adfer natur gan gynnwys diben neu ddatganiad cenhadaeth natur-bositif, targedau ac ymateb i'r GBF. Mae Gweinidogion Cymru yn cynhyrchu'r Polisi Adnoddau Naturiol yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cyflwyno strategaeth sy'n canolbwyntio'n ehangach ar fynd i'r afael ag agweddau rhywogaethau a chynefinoedd ar bolisi bioamrywiaeth, ond hefyd mynd i'r afael â phwysau a sbardunau, gan fabwysiadu dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar ecosystemau.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur

121. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a chyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni.

122. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gynllun sy'n amlinellu'r rhaglen waith fanwl sydd ei hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth ac yn nodi'r unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith, er bod rhai ymatebwyr yn amau effaith cynllun o'r fath os nad yw'n cael ei weithredu'n effeithiol.

123. Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod angen cynllunio a chyflwyno camau i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Natur Lleol a grwpiau lleol eraill, gan eu bod eisoes yn ceisio cyflawni targedau cenedlaethol ar lefel leol, gan ddwyn ynghyd ystod eang o arbenigedd a phrofiad. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr y dylai'r rhaglen waith ryngweithio'n agos â chynlluniau eraill, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

124. O ystyried yr adborth hwn, byddwn yn ceisio datblygu set glir o gamau gweithredu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

125. Yn hytrach na chynllun gweithredu statudol, rydym yn ystyried defnyddio cynlluniau cyflawni manwl, fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid, er mwyn nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod y fframwaith adfer natur yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys diben neu ddatganiad cenhadaeth natur-bositif a'r targedau bioamrywiaeth. Byddwn yn ceisio gweithio'n agos gyda sefydliadau fel y Partneriaethau Natur Lleol i ddatblygu camau gweithredu sy'n helpu i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth ar lefel leol yng Nghymru.

<u>Cyfraniad awdurdodau cyhoeddus at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth a phrif ffrydio targedau bioamrywiaeth drwy Gynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol</u>

126. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i'w gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Hefyd, roedd y Papur Gwyn yn cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i gynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol i amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol ar gyfer cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol.

127. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynigion hyn, ond mynegwyd pryderon am y goblygiadau o ran adnoddau ac ariannu ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a pherthnasedd y ddyletswydd i sefydliadau nad ydynt yn rheoli tir sylweddol nac yn darparu gwasanaethau.

128. O ran pa awdurdodau cyhoeddus y dylai'r dyletswyddau hyn fod yn berthnasol iddynt, roedd cefnogaeth i'r rhestr hirach yn Atodiad 2 o'r Papur Gwyn, er na wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod cyfle ar gael i ddatblygu'r gwaith cydweithredol presennol rhwng awdurdodau lleol a Phartneriaethau Natur Lleol wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol.

129. Wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, nodwyd bod Partneriaethau Natur Lleol eisoes wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol, neu eu bod wrthi'n eu cynhyrchu, gydag amrywiaeth o sefydliadau partner, gan gynnwys rhai o'r sector preifat. Roedd cefnogaeth i'r syniad o ddefnyddio'r cynlluniau gweithredu hyn er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

130. Felly, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, ond yn hytrach byddwn yn ystyried darparu canllawiau statudol manwl a chymorth wedi'i dargedu i gryfhau'r broses o gyflawni targedau ar lefel leol.

131. Cyflwynir dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Byddwn yn archwilio natur y ddyletswydd hon ac i bwy y bydd y ddyletswydd yn berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Adnoddau ar gyfer Cyflwyno'r Fframwaith

132. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith fod angen adnoddau digonol – gan gynnwys sicrhau bod modd datblygu gallu digonol, argaeledd sgiliau, ac adnoddau ariannol – er mwyn cyflwyno'r cynigion a amlinellir yn y Bil.

133. Byddwn yn ystyried mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy osod targedau ar draws cwmpas eang. Hefyd, byddwn yn archwilio argaeledd adnoddau yn drylwyr er mwyn sicrhau ein bod yn gallu helpu i roi pob elfen o'r fframwaith ar waith yn effeithiol. Fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol, byddwn yn cynnal asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd o bob cynnig polisi.